


Skip to English

# Cylchlythyr Taith Llwybr 2 2025

Croeso i rifyn arbennig Llwybr 2 o gylchlythyr Taith. Yn y rhifyn hwn mae gwybodaeth bwysig am ein galwad am gyllid olaf ar gyfer Llwybr 2, yn ogystal â sïon sicr i'ch helpu gyda'ch cais.

Fel bob amser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn: ymholiadau@taith.cymru.




## Galwad Olaf i Wneud Cais am Brosiect Llwybr 2

### Helpwch i Lunio Dyfodol Addysg yng Nghymru

Mae amser yn brin i fod yn rhan o Lwybr 2 (Partneriaeth a Chydweithio Strategol); cyfle ariannu a gynlluniwyd ar gyfer sefydliadau Cymru i arwain prosiectau addysg arloesol mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Mae'r prosiectau hyn yn mynd i'r afael â blaenoriaethau addysgol allweddol yng Nghymru gan dynnu ar fewnwelediadau byd-eang i gyfoethogi dysgu ac ymarfer ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Rydyn ni eisoes wedi cefnogi prosiectau ysbrydoledig megis ymweliad Plan International i archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, ac ymweliad Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i Seland Newydd i ddysgu am ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm.

Disgwylir i raglen Taith ddod i ben yn 2028, felly dyma'ch cyfle olaf i wneud cais am a chyflwyno prosiect Llwybr 2. Os oes gennych gynnig yr hoffech ei drafod,

llenwch eich manylion yma a byddwn yn trefnu cyfarfod.

Mae'n werth nodi bod Taith yn ceisio ariannu prosiectau newydd a'i fod yn annhebygol o ariannu prosiectau/allbynnau sydd yr un fath â, neu'n debyg i, rhai sydd eisoes wedi cael eu hariannu gan Taith. Cyn gwneud cais gallwch wirio ba brosiectau rydyn ni wedi'u hariannu'n flaenorol ar gyfer Rhaglen 2 ar ein tudalen prosiectau wedi'u cynllunio a'n tudalen prosiectau wedi'u cwblhau.

Peidiwch â cholli allan – dyma'ch cyfle olaf i fod yn rhan o Lwybr 2.

**Mae ceisiadau'n cau am 12pm ar 6 Tachwedd 2025.**

## Gweminarau Llwybr 2

Mae amser o hyd i ymuno â gweminarau Llwybr 2 os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i Lwybr 2 2025.

Isod mae manylion y gweminarau Holi ac Ateb y byddwn ni'n eu cynnal yn ystod yr alwad am gyllid, ynghyd â dolenni i gofrestru. Nid oes agenda penodol ar gyfer y gweminarau, mae'n gyfle i chi holi unrhyw gwestiynau sydd gennych am syniad am brosiect, y broses ymgeisio, neu redeg prosiect.

Os byddai'n well gennych chi siarad â ni'n uniongyrchol, rhowch eich manylion yma a byddwn ni'n trefnu cyfarfod 1:1 ar amser sy'n gyfleus i chi.

**Sesiynau Holi ac Ateb**

Ymunwch â ni ar gyfer trafodaeth anffurfiol – eich cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn i Dîm Taith am eich cais Llwybr 2.

**Dydd Mawrth 21 Hydref 12:00-13:00 (dwyeithog)**

**Dydd Llun 3 Tachwedd 16:00-17:00 (dwyeithog)**

## Cyn Gwneud Cais i Lwybr 2: Yr Hyn Sydd Angen i Chi ei Wneud

Cyn cyflwyno'ch cais, mae'n bwysig gwneud yn siŵr mai Llwybr 2 yw'r dewis cywir ar gyfer eich syniad prosiect a'ch sefydliad.
Dyma'r camau allweddol rydyn ni'n argymell eich bod yn eu cymryd:

- Darllenwch Ganllaw Llwybr 2 yn drylwyr, a gwnewch yn siŵr mai Llwybr 2 yw'r dewis cywir ar gyfer eich sefydliad a'ch prosiect arfaethedig
- Darllenwch y canllawiau cymhwysedd ar gyfer sefydliadau a gwnewch nodyn o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lenwi'r ffurflen gymhwysedd
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais i'r sector cywir. Mae'r gwahanol reolau cymhwysedd ar gyfer pob sector ar gael yn adran 2.1 Canllaw Llwybr 2
- Darllenwch drwy ddogfen cymorth cais Llwybr 2 – mae hon yn cynnwys yr holl gwestiynau ansoddol y bydd angen i chi eu hateb fel rhan o'r cais
- Edrychwch ar brosiectau Llwybr 2 eraill rydyn ni wedi'u hariannu ar ein tudalen prosiectau wedi'u cynllunio

## Sïon Sicr Llwybr 2



Dyma rai sïon sicr i'ch helpu gyda'ch cais Llwybr 2!

1. **Gwirio prosiectau'r gorffennol**
   Gwnewch yn siŵr bod eich prosiect yn newydd gan ein bod yn

annhebygol o ariannu'r un prosiect/prosiectau tebyg i un a ariannwyd eisoes. Edrychwch ar ein tudalennau prosiectau a gynlluniwyd a phrosiectau a gwblhawyd cyn gwneud cais.
Os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â ni, rydyn ni'n hapus i helpu!

2. **Tystiolaethu'r angen**
   Dangoswch y bwlch y bydd eich prosiect yn ei lenwi yng Nghymru a'i gysylltu'n glir â strategaeth a themâu Taith.
3. **Dangos yr effaith a lledaenu'n eang**
   Eglurwch sut bydd eich allbynnau o fudd i'r sector, yn cael eu rhannu, ac yn cael gwerth hirdymor.
4. **Cyfiawnhau'ch partneriaid a chyllideb**
   Dangoswch pam fod gwybodaeth a phrofiad eich partner rhyngwladol yn hanfodol, a sicrhewch fod pob cost yn bwrpasol ac yn gysylltiedig â deilliannau.




# Astudiaeth Achos Llwybr 2

**Datblygu Ysgolion Bro yng Nghymru: Dysgu gan a gydag ein partneriaid cymunedol yn Florida**

**Ysgol Arweiniol: Ysgol Gynradd Pencoed**
**Thema: Datblygiadau mewn Addysg**

Partnerodd Ysgol Gynradd Pencoed â dwy ysgol arall, Ysgol y Gogarth ac Ysgol Pen Rhos, i wneud cais am gyllid Llwybr 2 Taith i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd ysgolion bro yng Nghymru. Mae eu prosiect yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i bob ysgol yng Nghymru fod yn ysgol fro.  Aethant i Florida oherwydd daw llawer o'r ymchwil ar effaith ysgolion bro o'r Unol Daleithiau ac mae rhaglen ysgolion bro sydd wedi'i hen sefydlu yn Florida.

**Dysgwch ragor am eu prosiect yma**

## Trefnwch gyfarfod ar-lein gydag aelod o dîm Taith

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio ar ran eich ysgol neu sefydliad ar gyfer eich prosiect Lwybr 2 eich hun, cliciwch y ddolen hon a rhowch eich manylion fel y gallwn gysylltu â chi i drefnu amser cyfleus i gyfarfod.

**Cyfarfod un-i-un**

---

# Taith Newsletter
# Pathway 2 2025

Welcome to a special Pathway 2 edition of the Taith newsletter. In this issue, you'll find important information about our final funding call for Pathway 2, along with top tips to help you with your application.

As always, if you have any questions, please contact us at:

enquiries@taith.wales




## Last Call to Apply for a Pathway 2 Project
### Help Shape the Future of Education in Wales

Time is running out to be part of Pathway 2 (Partnership and Strategic Collaboration); a funding opportunity designed for Welsh organisations to lead innovative education projects in collaboration with international partners. These projects tackle key educational priorities in Wales while drawing on global insights to enrich learning and practice at both local and national levels.

We've already supported some inspirational projects such as Plan International and their visit to explore ways to address gender-based violence, and Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf's visit to New Zealand to learn about decolonising the curriculum.

With the Taith programme set to end in 2028, this is your final chance to apply for and deliver a Pathway 2 project. If you have a proposal and would like to discuss it, please fill out your details here and we'll arrange a meeting.

It is worth noting that Taith is looking to fund new projects and is unlikely to fund projects/outputs that are the same, or similar, to those already funded by Taith. Before applying you can check what projects we have previously funded for Pathway 2 on our planned projects page and our completed projects page.

Don't miss out – this is your last opportunity to be part of Pathway 2.

**Applications close at 12pm on 6 November 2025.**

## Pathway 2 webinars

There's still time to join the Pathway 2 webinars if you are interested in applying to Pathway 2 2025.

Below, you'll find details of the Question-and-Answer webinars we'll be hosting during the funding call, along with links to register. There is no set agenda for these webinars, it's your opportunity to ask any questions you might have about a project idea, the application process, or running a project.

If you'd prefer to speak with us directly, simply fill out your details here and we'll arrange a 1:1 meeting at a time that works for you.

---

**Q&A Sessions**

Join us for an informal session- your chance to ask the Taith team anything about your Pathway 2 application.

**Tuesday 21 October 12:00-13:00 (bilingual)**

**Monday 3 November 16:00-17:00 (bilingual)**

## Before You Apply for Pathway 2: What You Need to Do

Before submitting your application, it's important to make sure Pathway 2 is the right fit for both your project idea and your organisation.

Here are the key steps we'd recommend you take:

- Read the Pathway 2 Guide thoroughly, and make sure that Pathway 2 is the right fit for your organisation and planned project
- Read the eligibility guidance for organisations and make a note of the information you need to have ready to complete the eligibility form
- Make sure you check you are applying to the correct sector. The different eligibility rules for each sector can be found in section 2.1 of the Pathway 2 Guide
- Read through the Pathway 2 application support document – this has all the qualitative questions you will need to answer as part of the application
- Check what other Pathway 2 projects we've previously funded on our planned projects page

## Top Tips for Pathway 2



We've got some great tips to help you with your Pathway 2 application!

1. **Check past projects**

   Make sure your idea is new as we are unlikely to fund same/similar projects already funded. Look at our planned and completed projects

pages before applying.

If unsure, please contact us, we're happy to help!

2. **Evidence the need**

   Show the gap your project will fill in Wales and link it clearly to Taith's strategy and themes.

3. **Show impact & share widely**

   Explain how your outputs will benefit the sector, be shared, and have long-term value.

4. **Justify partners & budget**

   Show why your international partner's knowledge and experience is essential, and ensure every cost is purposeful and linked to outcomes.




# Pathway 2 Case Study

**Developing Community Focused Schools in Wales: Learning from and with our community partners in Florida**

**Lead School: Pencoed Primary School**
**Theme: Developments in Education**

Pencoed Primary School partnered with two other schools; Ysgol Y Gogarth and Ysgol Pen Rhos, to apply for Taith Pathway 2 funding to support the development and sustainability of community focused schools in Wales. Their project supports the Welsh Government's ambition for all schools in Wales to become community focused schools. They went to Florida as much of the research on the impact of community schools comes from the United States and there is a well-established community school programme in Florida.

**Find out more about their project here**

## Arrange an online meeting with a member of the Taith team

If you are interested in applying on behalf of your school or organisation for your own Pathway 2 project, then please click on this link and fill out your details so we can contact you to arrange a time to meet that's convenient for you.

**One-to-one meeting**